# GWASANAETHAU’R CAMPWS - GWASANAETHAU PRESWYLFEYDD
# Sesiwn 2023/2024
## Canllawiau Talu Am Lety

## NODIADAU PWYSIG
## Darllenwch y rhain cyn llenwi eich Gorchymyn Debyd Uniongyrchol

Mae’r ddogfen hon yn:
- Esbonio’r dulliau o dalu rhent
- Esbonio’r System Debyd Uniongyrchol
- Rhoi amrywiaeth o sicrwydd o ran talu drwy Ddebyd Uniongyrchol
- Rhoi manylion dyddiadau talu

### DULLIAU TALU AR GYFER RHENT

Mae rhent yn daladwy naill ai drwy:

- **Gerdyn credyd/debyd, yn llawn, ymlaen llaw neu wrth gyrraedd**
- **Debyd Uniongyrchol o gyfrif banc yn y DU (sy'n daladwy mewn uchafswm o 3 rhandaliad ar ddyddiadau penodol, gan ddibynnu ar gyfnod eich contract). Os na wnaethoch chi sefydlu Debyd Uniongyrchol erbyn 1 Hydref 2023, bydd angen i chi dalu eich rhent â cherdyn credyd/debyd. Os ydych wedi sefydlu Debyd Uniongyrchol gyda ni, drwy’r dull hwn y byddwn yn casglu eich rhent.**

Os byddwch yn dymuno talu eich rhent **yn llawn â cherdyn credyd/debyd,** dylech ddewis yr opsiwn ‘**Taliad Llawn gyda Cherdyn Credyd/Debyd’** i dalu eich rhent wrth dderbyn y cynnig ar gyfer eich llety.

Os ydych am dalu eich rhent mewn rhandaliadau (uchafswm o 3 rhandaliad ar ddyddiadau penodol, yn dibynnu ar gyfnod eich contract) dylech ddewis yr opsiwn '**Rhandaliadau drwy Gerdyn Credyd/Debyd'** wrth dderbyn eich Cynnig Preswyl ar-lein.

Yr unig eithriadau i’r dulliau talu hyn yw:
- **Myfyrwyr a Noddir**
  - Os bydd eich rhent yn cael ei dalu’n uniongyrchol i ni gan eich noddwr, dewiswch **‘Rhandaliadau sy’n cael eu talu gan noddwr’** ar gyfer eich dull talu ac anfonwch gopi o’ch llythyr Affidafid yn cadarnhau eich statws noddedig at Incwm Gwasanaethau’r Campws ar y cyfeiriad ebost isod. Ar ôl i chi gyrraedd Caerdydd, byddwn yn anfon anfoneb at eich noddwr ar gyfer eich Rhent.
- **Bwrsariaeth y GIG**
  - Os byddwch yn derbyn tâl misol trwy Fwrsariaeth y GIG, gallwch ofyn i dalu eich rhent mewn rhandaliadau misol cyfartal trwy gynllun talu misol. Dewiswch yr opsiwn ‘'**Rhandaliadau drwy Gerdyn Credyd/Debyd'**. Yna anfonwch gadarnhad o'ch bwrsariaeth at Incwm Gwasanaethau'r Campws yn y cyfeiriad ebost isod. Bydd Incwm Gwasanaethau'r Campws yn cadarnhau eu bod yn derbyn eich cynllun talu ar ôl cael tystiolaeth o'ch taliad misol ac yn fuan wedi i chi gyrraedd.

Os nad yw'r un o'r opsiynau hyn yn addas i'ch amgylchiadau, dewiswch '**Rhandaliadau drwy Gerdyn Credyd/Debyd'**. Cysylltwch ag Incwm Gwasanaethau'r Campws; byddant yn trafod yr opsiynau talu eraill gyda chi.

### TRWYDDED PARCIO

Mae trwyddedau parcio yn daladwy mewn un rhandaliad ar yr un dyddiad ag y disgwylir eich rhandaliad rhent cyntaf.

### Y SYSTEM DEBYD UNIONGYRCHOL

Debyd Uniongyrchol yw'r dull o dalu'ch rhent a ffi eich trwydded barcio yn uniongyrchol o'ch cyfrif banc. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych ddigon o arian yn eich cyfrif banc o leiaf 48 awr cyn y dyddiad talu.

**Rhaid** i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu fod yn y Deyrnas Unedig (DU). Bydd angen i chi agor **Cyfrif Cyfredol** oherwydd ni ellir gwneud Debydau Uniongyrchol o unrhyw fath arall o gyfrif.

## SICRWYDD DEBYD UNIONGYRCHOL

Rhoddir y sicrwydd canlynol i chi (neu dalwr y cyfrif enwebedig – sef y person y mae eu henw ar y cyfrif) gan y Brifysgol mewn perthynas â Gorchmynion Debyd Uniongyrchol:

- Bydd Debydau Uniongyrchol yn cael eu cyflwyno o fewn telerau'r cyfarwyddyd yr ydych wedi'i awdurdodi yn unig a chewch eich amddiffyn gan indemniad a roddir gan y Brifysgol i Fanciau a Chymdeithasau Adeiladu.
- Bydd eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu yn eich ad-dalu os bydd Debyd Uniongyrchol ar eich cyfrif nad yw'n cydymffurfio â'ch Gorchymyn Debyd Uniongyrchol.
- Mae gennych hawl bob amser i ganslo eich Gorchymyn Debyd Uniongyrchol trwy ysgrifennu at eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu; fodd bynnag, rhaid hysbysu Incwm Gwasanaethau'r Campws hefyd.
- Os byddwch yn newid eich cyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu ac yn canslo eich Gorchymyn Debyd Uniongyrchol, rhaid i chi hysbysu Incwm Gwasanaethau'r Campws a llenwi Gorchymyn Debyd Uniongyrchol arall.
- Mae eich gorchymyn yn caniatáu talu symiau amhenodol i'r Brifysgol. Bydd yr Hysbysiad Talu yn eich hysbysu ynghylch y symiau a dyddiadau gwneud y taliadau.
- Ar y dyddiadau talu penodol, byddwn yn gofyn am y swm/symiau sy'n ddyledus ar gyfer y rhandaliad hwnnw. Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw symiau sy'n uwch na'r rhandaliad, nac yn gofyn am ragor o daliadau na'r 3 taliad ar ddyddiadau talu'r rhandaliadau, fesul sesiwn academaidd, heb roi rhybudd ymlaen llaw i chi neu dalwr y cyfrif enwebedig.
- Mae eich Gorchymyn Debyd Uniongyrchol yn ddilys ar gyfer cyfnod y contract presennol yn unig, a byddem yn argymell eich bod chi'n cadarnhau'n bersonol gyda'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu bod y gorchymyn wedi cael ei ganslo, ar ddiwedd y cyfnod preswyl.

## TALU AM LETY A DYDDIADAU TALU

| **Cyfnod Contract 40 wythnos** | **Dyddiadau Talu** | **Cyfnod Contract Gwirioneddol a gwmpesir gan y Taliad** |
|---|---|---|
| 20 Medi 2023 – 26 Mehefin 2024 | 25 Hydref 2023<br>24 Ionawr 2024<br>17 Ebrill 2024 | 20 Medi 2023 – 23 Rhagfyr 2023<br>23 Rhagfyr 2023 - 25 Mawrth 2024<br>25 Mawrth 2024 – 26 Mehefin 2024 |
| **Cyfnod Contract 39 wythnos** | **Dyddiadau Talu** | **Cyfnod Contract Gwirioneddol a gwmpesir gan y Taliad** |
| 20 Medi 2023 – 17 Mehefin 2024 | 25 Hydref 2023<br>24 Ionawr 2024<br>17 Ebrill 2024 | 20 Medi 2023 – 20 Rhagfyr 2023<br>20 Rhagfyr 2023 - 19 Mawrth 2024<br>19 Mawrth 2024 – 17 Mehefin 2024 |
| **Cyfnod Contract Blwyddyn Lawn** | **Dyddiadau Talu** | **Cyfnod Contract Gwirioneddol a gwmpesir gan y Taliad** |
| 20 Medi 2023 – 13 Medi 2024 | 25 Hydref 2023<br>24 Ionawr 2024<br>17 Ebrill 2024 | 20 Medi 2023 – 18 Ionawr 2024<br>18 Ionawr 2024 – 17 Mai 2024<br>17 Mai 2024 – 13 Medi 2024 |

Mae'r 'Cyfnod Contract Gwirioneddol y mae'r Taliad yn ei gwmpasu' yn ganllaw bras – caiff y rhandaliadau ar gyfer Cyfnod Contract eu rhannu'n gyfartal ac nid ydynt bob amser yn rhannu'n ddiwrnodau cyfan.

Mae'r dyddiadau uchod wedi cael eu cynllunio i ystyried derbyn a bancio Benthyciadau Myfyrwyr.

Bydd **Hysbysiad Talu** yn cael ei anfon atoch mewn neges ebost pythefnos cyn y dyddiad talu, yn eich cynghori ynghylch y symiau sy'n ddyledus ar gyfer y rhent, ac erbyn pa ddyddiad sydd rhaid gwneud pob taliad. Bydd yr Hysbysiad Talu yn cadarnhau manylion y cyfrif y bydd y taliadau'n cael eu tynnu ohono ar gyfer eich rhent. Bydd yn cael ei anfon mewn neges ebost i'ch cyfeiriad ebost Prifysgol Caerdydd ac unrhyw gyfeiriad ebost arall sydd gennym ar eich cyfer. **Mae'n bwysig eich bod chi'n cadw llygad ar eich cyfrifon ebost yn rheolaidd**. Sylwer, efallai y bydd rhai darparwyr ebost yn trin yr ebost fel sbam, felly eich cyfrifoldeb chi yw edrych yn eich ffolder sbam/sothach yn ogystal â'ch mewnflwch, gan mai mewn neges ebost yn unig y caiff yr Hysbysiad Talu ei anfon.

Os oes unigolyn neu sefydliad (talwr cyfrif enwebedig) wedi cytuno i fod yn gyfrifol am dalu eich rhent trwy Ddebyd Uniongyrchol, bydd Hysbysiad Talu yn cael ei anfon yn uniongyrchol atynt mewn neges ebost. Bydd Hysbysiad Talu yn cael ei anfon mewn neges ebost atoch chi hefyd, er gwybodaeth yn unig.

*Contractau sy'n cychwyn ar ddechrau'r Cyfnod Contract 39/40 wythnos neu'r Flwyddyn Lawn:*

Ar gyfer myfyrwyr y neilltuir llety ar eu cyfer ar ddechrau cyfnod contract 39/40 wythnos neu'r flwyddyn lawn, caiff y rhent blynyddol ei gasglu mewn rhandaliadau cyfartal ar y dyddiadau a nodir uchod ar gyfer sesiwn 2023/2024.

*Contractau sy'n cychwyn ar ddechrau Cyfnod y Contract Ansafonol:*
Ar gyfer myfyrwyr y neilltuir llety ar eu cyfer ar ddechrau cyfnod contract ansafonol, caiff y rhent blynyddol ei gasglu mewn rhandaliadau cyfartal ar y dyddiadau a nodir ar y cofnod Derbyn Contract – Materion Allweddol.

*Contractau sy'n cychwyn ar ôl dechrau Cyfnod Contract Ansafonol, 39/40 wythnos neu'r Flwyddyn Lawn:*
Ar gyfer myfyrwyr y dyrennir preswylfeydd iddynt ar ôl dechrau'r Cyfnod Contract Ansafonol, 39/40 wythnos neu'r Flwyddyn Lawn, caiff y rhent ei rannu'n gyfatebol a'i gyfrifo ar sail dyddiol. Sylwer efallai y bydd gofyn i chi wneud taliad cychwynnol pan fyddwch yn cyrraedd, a bydd gweddill y rhent yn cael ei rannu'n randaliadau cyfartal yn unol â chyfnod eich contract.

*Contractau a ddiwygiwyd yn ystod unrhyw gyfnod contract:*
Bydd taliadau myfyrwyr sy'n newid eu contract yn ystod cyfnod y contract, er enghraifft, trwy symud i ystafell wahanol, yn cael eu haddasu yn unol â hynny. Bydd angen i fyfyrwyr sy'n symud i ystafell ratach neu ddrytach ar ôl i Hysbysiad Talu gael ei gyflwyno ar gyfer y rhandaliad cyntaf neu'r ail randaliad, dalu'r swm a nodir ar yr Hysbysiad Talu gwreiddiol. Bydd unrhyw wahaniaeth mewn rhent oherwydd symud ystafell yn cael ei rannu ar draws rhandaliadau yn y dyfodol a bydd y taliadau wedi'u haddasu yn cael eu dangos ar yr Hysbysiad Talu ar gyfer y rhandaliad nesaf sy'n ddyledus. Sylwer, os byddwch yn ymestyn eich cyfnod preswyl, efallai y bydd gofyn i chi dalu swm ychwanegol.

## ÔL-DDYLEDION RHENT DIFRIFOL

Bydd deiliaid contract sydd ag ôl-ddyledion rhent difrifol yn destun camau pellach (a allai gynnwys camau cyfreithiol) i adennill y symiau dyledus a/neu feddiant o'r Safle. Bydd unrhyw gostau (gan gynnwys costau cyfreithiol) y mae'n rhaid i'r Brifysgol eu talu hefyd yn cael eu ceisio gan y dyledwr.

## YMHOLIADAU CYLLID

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch talu eich rhent a/neu os ydych yn cael unrhyw anawsterau ariannol, cysylltwch ag Uned Gwasanaethau Ariannol, Tîm Incwm Gwasanaethau'r Campws:

| | |
|---|---|
| Ffôn: | +44 (0)29 2087 6367 |
| E-bost: | residencesfinance@caerdydd.ac.uk |

Os ydych chi'n cael anawsterau ariannol, gallwch hefyd siarad â'r Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr i gael cefnogaeth ac arweiniad ynglŷn â'ch arian. Gallwch gysylltu â'r Tîm Cyllid a Chyngor i Fyfyrwyr drwy ffonio (0)29 225 18888 neu drwy ebostio studentconnect@caerdydd.ac.uk. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar dudalennau gwe'r Tîm Cyngor ac Arian.

I gael cyngor annibynnol, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth Cyngor i Fyfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr sy'n cynnig cyngor diduedd a chyfrinachol yn rhad ac am ddim yn ogystal â chefnogaeth a chynrychiolaeth ynghylch rheoliadau'r Brifysgol. Gallwch gysylltu â'r gwasanaeth Cyngor i Fyfyrwyr drwy ffonio (0 )29 2078 1410 neu drwy ebostio advice@caerdydd.ac.uk. Mae gwybodaeth ar gael hefyd yn: https://www.cardiffstudents.com/advice/